Dyfroedd Byw i Gymru

Pedwaredd Newyddlen y Cynllun Fframwaith Dŵr
Awst 2011

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Beth fu'n digwydd?

Dull Cymru-gyfan

Mae Llywodraeth Cymru'n bendant ein bod ni'n awdurdod cymwys, ac yn disgwyl inni ddatblygu a chyfathrebu agwedd gwahanredol yng Nghymru at gyflawni'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD). Er mwyn cyflawni disgwyliadau Llywodraeth Cymru, mae ein dull Cymru-gyfan ni'n ceisio clustnodi'r dulliau cyflawni mwyaf cost-effeithiol sy'n esgor ar welliannau mewn modd teg a chytbwys. Mae yna ddatblygu tystiolaeth drefnus er mwyn canfod beth sy'n bennaf gyfrifol am fethiannau CFfD. Bydd y dull yn penderfynu a ellir cyflawni gweithgaredd unwaith; sut y gellir defnyddio trefniadau presennol er mwyn achub cyfleoedd, neu ymhle y gellir datblygu ateb strategol.

Cyd-gyflawni yw hanfod cyflawni, gan na allwn ni wneud popeth ym mhobman. Mae angen inni wella cymaint ag y medrwn ni.

Mae cyd-gyflawnwyr wedi dweud wrthym fod angen inni hwyluso mynediad eraill at wybodaeth CFfD. Rydym yn datblygu strategaeth cyfathrebu'r hyn sy'n bennaf gyfrifol am fethiannau CFfD yng Nghymru, a'r hyn y bydd angen i ninnau a'n cyd-gyflawnwyr ni ei wneud. Ymchwiliwn i sut y gellid cyflwyno gwybodaeth leol, fel ein Harweiniad Gweithredu Dyfrdwy ni (sy'n dangos y cysylltiadau rhwng methiannau dyfroedd a gweithrediadau lleol ar ffurf map syml a thablau cysylltiedig) ar raddfa Cymru-gyfan.

Gweler CFfD am ragor o wybodaeth.

Cefnogi'r Trydydd Sector

Penderfynwyd y gallai cefnogi Cyrff Trydydd Sector (Ymddiriedolaethau Afon ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, e.e.) helpu gwella'r amgylchedd dyfrol.

Mae Angela Ellis wedi ymuno â'r Tîm Nawdd Allanol yn Swyddog Cymorthdaliadau CFfD, er mwyn sicrhau arian allanol ar gyfer gwella'r amgylchedd. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw gyfleoedd lleol y gellid ymchwilio iddynt ar gyfer cyflawni'r CFfD, cysylltwch ag Angela <mailto:angela.ellis@environment-agency.gov.uk> am ragor o wybodaeth.

Penodwyd Kyle Young yn Swyddog Cyswllt Trydydd Sector, hefyd. Dyma swyddogaeth newydd sy'n helpu partneriaid trydydd sector i ganfod meysydd allweddol lle gall y sector hwn wella'r amgylchedd. Cysylltwch â Kyle er mwyn canfod sut y gallwn gefnogi'ch gwaith chi.

Mae'r ddwy swydd hyn yn rhai Cymru-gyfan.

Beth sy'n digwydd yn eich ardal basn afon chi?

Gwella Cynefinoedd Ardal Basn Hafren

Ym Mawrth 2011 darfu inni ymgymryd â chynllun cydweithiol yng Nghoed Hafren, Maldwyn gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC).

Canolbwyntiodd y gwaith ar goetir a gwympwyd yn y blynyddoedd diwethaf, gan geisio addasu'r rhwydweithiau draenio

hanesyddol a luniwyd pan blannwyd y safle'n wreiddiol.

Arweiniodd gweithwyr CCC trwy osod cyfres o fyrnau gwellt a grug yma ac acw hyd y rhwydweithiau draenio. Y prif amcan oedd adfer mignenni ac argaeledd cynefinoedd fel ei gilydd: ond dichon hefyd iddo leihau gwaddodi a hwyluso dal a storio carbon.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â John Wheadon. Am weithgareddau CCC ledled Cymru, ewch at: Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Llain glustogi o fyrnau gwellt a grug

Atal planhigion ymledol yn Ardaloedd Basnau Afonydd Dyfrdwy a Gorllewin Cymru

Mae partneriaeth sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol Sir y Fflint a Sir Ddinbych, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, ninnau a chyrff anllywodraethol eraill yn datblygu cynllun ar raddfa ddirweddol yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Bydd y cynllun, ym mlaenau Alun a Chwiler yn bennaf, yn trawsffurfio'r amgylchedd, gan ganolbwyntio, i ddechrau, ar wella coridorau afon. Gan adeiladu ar waith blaenorol, amcana adfer, ail-greu ac ailgysylltu cynefinoedd bywyd gwyllt, ac ymgysylltu â phobl leol. Gallai'r cynllun hwn fod yn foddion cyflawni nodau CFfD.

Cysylltwch ag:
acljones@wildlifetrustswales.org

Rydym yn ymuno â CCGC a CCC ar Ystwyth yng ngorllewin Cymru. Dechreuwyd gweithio o'r blaenau at i waered dwy flynedd yn ôl, a gobeithir cyrraedd cyn belled â Thrawsgoed. Cynhwysir rhagnentydd bychain Ystwyth.

Os dymunwch wybod beth sy'n digwydd, ac am y broses ddileu, ewch at y Blog Ffromlys Chwarennog. Mae cynllun Ystwyth yn dibynnu ar wybodaeth gan y cyhoedd er mwyn canfod y ffromlys chwarennog ym mlaenau Ystwyth: felly os gwelwch chi ef, rhowch wybod iddynt.

Cyflawnir Ail Gam y cynllun synhwyro o bell er mwyn mapio llysiau'r dial erbyn Medi 2011. Byddwn yn gweithio ag arbenigwyr llysiau'r dial yr Awdurdodau Lleol er mwyn cynhyrchu'r mapiau, a fydd yn darparu gwybodaeth gywir ynghylch dosbarthiad y chwynnyn. Byddwn yn cloriannu cronfeydd gwybodaeth a synhwyrwyd o bell eraill, hefyd, er mwyn gweld a ellir defnyddio'r un technegau gyda'r ffromlys chwarennog a'r efwr mawr. Rydym yn gweithio â Sefydliad Gwy ac Wysg er mwyn canfod mannau profi, lle mae'r planhigion hyn ar eu gwaethaf rhemp. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Geraint Davies <mailto:geraint.davies@environment-agency.gov.uk> neu Helena Sykes <mailto:helena.sykes@environment-agency.gov.uk> o'r Tîm Asesu a Hysbysu Amgylcheddol.

Am ragor o wybodaeth, ewch at y canlynol:
Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru:
Asiantaeth yr Amgylchedd:
Ysgrifenyddiaeth rhywogaethau estron PF

Mynd i'r adael â llygredd dŵr mwyngloddiau Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Cwblhawyd cam cyntaf gwaith gwella ansawdd dŵr mwynglawdd gadawedig y Fron-goch ger Aberystwyth. Bu'n gollwng rhagor na thunnell fetrig o blwm a rhagor nag 20 tunnell fetrig o sinc i Ystwyth pob blwyddyn ers ei adael ddechrau'r 20fed ganrif, gan effeithio'n arw ar bysgod a bywyd gwyllt arall yr afon.

Dangosodd canlyniadau leihad mawr yn y llygredd o'r safle, felly gobeithiwn y bydd pysgod a bywyd gwyllt arall yn dychwelyd o ganlyniad. Ymchwilir i ddulliau eraill lleihau rhagor ar lygredd y safle, a cheisir arian ar gyfer y gwelliannau hyn.

Cysyllter â Paul Edwards am ragor o wybodaeth.

Gwastraff mwyngloddio'r Fron-goch

Gweithio ag Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin

Canfu arolwg cerdded Cynin, yn Sanclêr, bod coeden fawr wedi cwympo ac yn crynhoi shwrwd. Efallai fod y dagfa hon yn cyfrannu at fethiant pysgod yr afon. Mae cydweithrediad Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin (YASG) a ninnau'n galluogi YASG i sefydlu cynllun symud y rhwystr hwn. Ailgylchwyd pren y rhwystr gan dirfeddianwyr.

Gynt

Golyga budd y cydweithio hwn y bydd Cynin yn debycach o lawer o gyrraedd statws da, oherwydd gall eogiaid a brithyllod mudol gyrraedd 25clm ychwanegol o rwydwaith nentydd silio ychwanegol nawr. Am ragor o wybodaeth, gweler: Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin

Wedyn

Cynllun ffrwydron er mwyn lleihau trwytholchi metelau

Awgryma ansawdd dŵr wyneb methiannus dalgylch Mawddach fod gormodedd o fetelau'n rhannol gyfrifol am hyn. Mae'r safle wedi'i drwytho â metelau trymion o ganlyniad i ffrwydron byw a gweigion y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail. Buom yn gweithio â sgwad diffodd bomiau'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym meysydd tanio Trawsfynydd yng Ngwynedd er mwyn lleihau erydu tir a thrwytholchi metelau i Fawddach.

Ym Mawrth, cwblhawyd cynllun ffensio un clm² ogylch y safle diffodd bomiau blaenorol. Caniatâ hyn i lystyfiant ailddyfu heb i bori amharu arno, ac yn lleihau erydu pridd a thrwytholchi metelau trymion yn uniongyrchol i'r Nant Hir a Chain, dwy ragnant Mawddach. Codwyd tua 300clg o ffrwydron gwastraff hefyd, gan gynnwys llawfomiau byw y bu'n rhaid eu tanio yn y man a'r lle. Ariannodd Llywodraeth Cymru'r gwaith hwn, gyda nawdd penodol ar gyfer ymchwilio i dir halog yng Nghymru a'i adfer.

Dengys arolygu ansawdd dŵr a physgodfeydd a fu'r gwaith hwn yn effeithiol. Golyga budd y gwaith yw y bydd yn haws i'r dŵr gyrraedd statws da. Bydd y gwaith adfer yn gwella'r Nant Hir a Chain yn fawr, a dichon ailgyflwyno rhywogaethau pysgod ymfudol ac eogffurf brodorol.

Ffensio ar hyd Cain

Dyma enghraifft y o sut y gallwn gydweithio er mwyn sicrhau gwarchod ein hamgylchedd ni, waeth pa mor ffrwydrol yw'r broblem.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Sam Clink

Lleihau defnyddio gwrtaith yn nalgylch Elwy, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Mae ffermwyr wedi dangos sut y gall newid ychydig ar y modd y defnyddiant wrtaith gwneud, ar sail profion pridd, wneud gwahaniaeth mawr i'w busnesau nhw ac i'r amgylchedd.

Arbedodd ffermwr godro yn nalgylch Clwyd gwerth tua £3,600 o wrtaith wedi i brofion ddangos nad oedd angen iddo ddefnyddio gwrtaith cyfansawdd a gynhwysai ffosffad a photash. Trwy ddefnyddio gwrtaith slyri a llai o wrtaith nitrogen, cafwyd gwell cnydau silwair, hefyd.

Mae'r chwistrellu slyri wedi gweithio'n dda iawn, gyda'r silwair yn parhau i dyfu yn y caeau hynny yn ystod yr haf sych, a chafwyd gwell

cnwd. Fel hyn, mae defnyddio llai o wrtaith gwneud trwy seilio gofynion y cnwd ar brofion pridd, a chwistrellu slyri lle bo'i angen, yn well i'r amgylchedd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Nicola Taylor

Lleihau bygythiad llygredd gwaddodol yn chwiler, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Bu cydweithio a chyrff lleol er mwyn canfod effeithiau dichonol gweithgareddau lleol ar y rhwydwaith draenio ffyrdd.

Cytunwyd â Chynghorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych y gwagient y cwterydd (eleni'n unig, oherwydd diffyg arian) fel bo llai o waddod yn mynd i Chwiler. Cytunwyd hefyd y byddai criwiau lleol yn arolygu gollyngfeydd y ffyrdd, ac yn rhoi gwybod y canfyddiadau inni. Byddai hynny'n asesiad buddiol o effaith rheolaidd draeniau'r ffyrdd, ac yn rhoi inni wybodaeth leol a allai fod yn ddefnyddiol pe bai gofyn delio â digwyddiad amgylcheddol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Matt Buckley-Rees a Dawn Beech

Llygredd gwasgaredig trefol

Hwylusfa Bysgod Dulas (Llanbedr Pont Steffan), Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

Mae Dulas yn ragnant silio bwysig Teifi. Yn ystod gwaith ymchwiliol ein Swyddogion Pysgodfeydd ni, canfuwyd fod ceuffos pont rheilffordd segur yn llwyr atal ymfudiad pysgod. Tybir bod yr adeilad, sydd â'r dŵr medr yn uwch ar y naill ochr iddo nag ar y llall pan fo'r nant yn isel, yn cyfrannu at fethiant y nant, sydd yn y dosbarth "gwael" o ran pysgod.

Lluniwyd a gosodwyd tair cored carreg ar ffurf cilgant ymhelwch i fyny'r nant, pob un â charreg is yn y canol a fydd yn darparu llwybr amlwg ar gyfer pysgod ymfudol. Cafwyd y cerrig o chwarel leol.

Bydd y coredau newydd yn codi lefel y dŵr, ac yn agor 4clm o gynefin silio. Bydd o gymorth i Ddulas gyrraedd "statws da", yn unol â'i hamcanion CFfD.

Mae'r gwaith yn rhan o raglen "Eogiaid ar gyfer Yfory", a noddir yn gyfatebol gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Am ragor o wybodaeth, ewch at y Cynllun Eogiaid ar gyfer Yfory

Adeiladu'r hwylusfa bysgod

Cyd-gyflawni yn Ardal Basn Afon Hafren

Cydweithiodd sawl cyd-gyflawnwr er mwyn mynd i'r afael ag amryfal elfennau problemau Dowlais, un o ragnentydd Llwyd.

Canfuwyd tri chamgysylltiad ar ddeg, a chadarnhaodd Dŵr Cymru Welsh Water nad eu hasedau hwy mohonynt: felly fe'u trosglwyddwyd i CBS Torfaen eu datrys. Bu rhagor o chwilio ar Ystâd Ddiwydiannol Llantarnam, gan y cawsom broblemau yma o'r blaen, a arweiniodd ar lwyddo i erlyn ffatri am lygru yn 2008. Y tro hwn, nodwyd sawl camgysylltiad bychan y bydd angen ailymweld â hwy er mwyn canfod y ffynonellau.

Gwelwyd rhai arferion rheoli tir amaeth gwaelion. Bu i ffermwr achub sawl bwrn o wair oedd yn llithro i'r nant, a glanhau'r afon yn gyffredinol, gan gynnwys symud ymaith teiars a daflwyd iddi.

Trefnodd Cadwch Gymru'n Daclus ddiwrnod codi sbwriel llwyddiannus, gan fynd â 80 cwdyn o sbwriel o'r nant, a 2 dunnell fetrig o goediach fu'n achosi rhwystrau wrth Abaty Llantarnam. Mae chwiorydd yr Abaty nawr yn cadw golwg ar y sefyllfa, rhag i sbwriel grynhoi yno yn y dyfodol. Mae yna daflu gwastraff gwyrdd i'r nant, ac yr ydys yn datblygu ymgyrch atal llygredd trwy rannu taflenni ymysg preswylwyr er mwyn rhoi gwybod iddynt eu cyfrifoldebau.

Er y datryswyd rhai problemau yn ystod y gwaith ymchwilio, parhawn i weithio ag eraill er mwyn datrys y gweddill, a gwella rhagor ar Ddowlais.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jeremy Tanner

Gwaith adfer cynefin Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy

Mae Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru wedi creu cynefin pariaid yn Hirnant yng Ngarth Coch. Bydd y cynllun hwn yn ychwanegu at ein gwaith blaenorol ni er mwyn gwella cynefin pariaid trwy adlunio'r nant a gwella llystyfiant ei glannau.

Am ragor o wybodaeth ynghylch gwaith yr Ymddiriedolaeth, ewch at Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru <http://www.welshdeetrust.com> neu cysylltwch â Richard Lucas, Rheolwr Cynllun <mailto:rmlucas@msn.com>

Dull Sweden o gyflawni'r CFfD

Fis Ebrill, cyfarfu Ceri Jones ag Andreas Hedren, Pennaeth 'Adran Dŵr Bwrdd Gweinyddol Sirol Kronoberg, Sweden'. Bu'n gyfle i gydrannu profiadau cyflawni Cynlluniau

Rheoli Basnau Afonydd ple trafodwyd materion cyffredin i'r ddwy wlad, megis coedwigaeth, asideiddio, a dyfroedd mwyngloddiau.

Ymwelwyd â dalgylch Mawddach, lle mae enghreifftiau da o'r pwysau uchod. Hoffem ddiolch i Helen Carris (Panel Cyswllt Gorllewin Cymru Comisiwn Coedwigaeth Cymru) a'n swyddfa ni yn Ardal y Gogledd (Sam Clink a Phil Goodman) am drefnu'r daith maes. Roedd yn amlwg fod y dull Swedaidd hefyd yn canolbwyntio ar bartneriaethau, a bydd diweddariad chwe-misol er mwyn cydrannu rhagor o wybodaeth ynghylch cyflawni'r Cynlluniau rheoli Basnau Afonydd.

Ceir rhagor o wybodaeth gan Ceri Jones.

Rydym am hyrwyddo hanesion llwyddiannau gwella'r amgylchedd dyfrol. Rhowch wybod inni am unrhyw weithgareddau yr ydych chi neu'ch corff chi'n eu cyflawni er mwyn helpu gwella dyfroedd Cymru.

Os hoffech chi gyfrannu at newyddlenni'r dyfodol, neu'u derbyn nhw, cysylltwch â Jill Brown

Golwg tua'r dyfodol…

Panel Cyswllt Dyfrdwy - 13 Medi 2011
Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - 14 a 15 Medi 2011
Cynhadledd Hydref yr Ymddiriedolaethau Afon -
14 a 15 Medi 2011
Panel Cyswllt Hafren - 26 Medi 2011
Panel Cyswllt Gorllewin Cymru – 11 Hydref 2011
Fforwm Buddiolwyr CFfD Llywodraeth Cymru - 17 Hydref 2011

Am ragor o wybodaeth ynghylch eich Ardal Basn Afon chi, cysylltwch â Ceri Jones <mailto:ceri.jones@environment-agency.gov.uk> yn achos Dyfrdwy a Gorllewin Cymru, a Chris Tidridge <mailto:chris.tidrige@environment-agency.gov.uk> yn achos Hafren.

Mynediad BSYIGI 'Beth Sydd Yn Fy Iard Gefn I' <http://maps.environment-agency.gov.uk/wiyby/wiybyController?ep=maptopics&lang=_e> at ddata / gwybodaeth

Helpwch eich amgylchedd lleol chi trwy roi gwybod am unrhyw lygredd, taflu sbwriel anghyfreithlon, potsio, pysgod mewn trafferthion, neu fygythiad i'r amgylchedd lleol trwy alw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar ein rhif ffôn 24 awr, rhad ac am ddim ni, 0800 80 70 60.

Am wybodaeth ynghylch twristiaeth yng Nghymru, ewch at www.wta.org.uk

Follow us /Dilynwchni@EnvAgencyWales
Like us on /HoffwchniarFacebook